

Cymdeithas Budd Cymunedol

Ysgol Cribyn

Y Cynnig Cyfranddaliadau

22 Mawrth – 5 Mai, 2024

1 Cyflwyniad i Ysgol Cribyn

Menter gan bobl leol yw **Cymdeithas Fudd Cymunedol Ysgol Cribyn Cyf**. Ein bwriad yw rhoi'r gallu i'r gymdogaeth leol brynu'r ysgol a'i chynnal yn gwmni cydweithredol. Gall pawb fod yn rhan o'r fenter trwy fuddsoddi wrth brynu cyfranddaliadau. Bydd arian y siariau hyn yn ein galluogi i brynu a gwella'r adeilad. Mi fydd y cyfle i brynu cyfranddaliadau yn agor ar ddydd **Gwener, 22 Mawrth**, a bydd yn para am 6 wythnos gan gau ar **ddydd Sul, 5 Mai**.

Y nod yw codi £175,000 drwy gyfrwng y Cynnig i Brynu Cyfranddaliadau – cynnig fydd yn agored i'r gymuned ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Defnyddir yr arian a godir, ynghyd â grantiau i'w sicrhau o ffynonellau eraill, i brynu a gwella'r ysgol gan droi rhan ohoni yn gartref fforddiadwy a chrynswth yr adeilad yn ganolfan gymdeithasol hyblyg a deniadol. Amcangyfrifir bod cyfanswm cost y prosiect - prynu'r eiddo, creu'r ganolfan a'r cartref fforddiadwy - o gwmpas £850,000.

Mi fydd prynu cyfranddaliad yn eich gwneud yn Aelod o'r Gymdeithas ac yn rhoi llais i chi ar siwt mae'n cael ei rhedeg. Mae gan bob aelod un bleidlais, ta waeth faint o gyfranddaliadau a brynir. Bydd un siâr yn costi £1. Yr isafswm y gallwch ei fuddsoddi yw £100, a'r uchafswm yw £25,000.

Mae'r ddogfen hon yn...

- amlinellu'r prosiect, a siwt bydd yr aelodau a'r gymuned yn elwa ohono
- egluro natur y Gymdeithas a siwt bydd y cynnig siariau'n gweithio
- cynnwys gwybodaeth am siwt i brynu cyfranddaliadau

2 Y Nod Amlwg

Y Gymdeithas Budd Cymunedol

Sefydlwyd Cymdeithas Budd Cymunedol Ysgol Cribyn cyf. er mwyn galluogi pobol Cribyn a Dyffryn Aeron i sicrhau dyfodol ased yr ysgol. Mae Cymdeithas Budd Cymunedol yn fusnes sy'n eiddo i'r gymuned leol ac yn cael ei rhedeg er budd y gymuned, yn hytrach nag elw preifat.

Y nod yw prynu a gwella'r ysgol a'i chynnal yn ganolbwynt i'r ddynameg hanfodol a'r broses barhaus greu a chynnal ac ail-greu cymdeithas.

Prif elfennau'r fenter yw...

- Prynu'r eiddo (o fewn 6 mis)
- Creu canolfan gymdeithasol aml-bwrpas, deniadol a chysurus
- Addasu cyfran o'r adeilad yn gartref fforddiadwy ar gyfer teulu lleol.

3 Gweledigaeth Cymdeithas y ‘Cyd’

Cymdogaeth Cribyn a Chymdeithas Dyffryn Aeron

Cymdogaeth fechan yw Cribyn. Cwta 300 o drigolion sydd yma. Ond mae’n gymdogaeth fyrlymus. Cymdogaeth fyrlymus sydd hefyd yn fregus.

Perthyn y cyflwr bregus hwn i’r patrwm o newid demograffig sy’n gyffredin i gynifer o froydd y Gymru wledig, Gymraeg, sef: allfudiad pobol a theuluoedd ifainc ar y naill law a mewnfudiad pobol hŷn, gan fwyaf, ar y llaw arall. Dwyseir yr ansefydlogrwydd canlyniadol gan y ffaith mai, yn fras, siaradwyr dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yw’r naill a siaradwyr monoglot (Saesneg) yw’r llall.

Tra’r oedd y Cribyn hanesyddol yn gymdogaeth naturiol fyrlymus deillia bwrlwm y presennol o ymdrech ymwybodol ar ran craidd y gymdeithas actif i beidio colli gafael ar y ddynameg gydgreadigol a gynysgaeddwyd iddynt ac i ddarganfod ffyrdd i ysgogi a galluogi newydd-ddyfodiaid ymberthyn â, ac ymgyfranogi yn, y broses barhaus o greu a chynnal ac ail-greu cymdeithas.

Nod gwaelodol y fenter o brynu Ysgol Cribyn yw hyrwyddo’r weledigaeth **gyd**ymaddysgol hon. Dyma pam mae’r fenter yn parhau i arddel yr enw ‘Ysgol Cribyn’. Am mai, yn anad dim, lle i ddysgu am ein gilydd, oddi wrth ein gilydd a gyda’n gilydd fydd yr ysgol ar ei newydd wedd. Am mai dyna sydd wrth wraidd cymdogaeth **gyd**-greadigol a **chyd**-ofalgar. Cymdeithas lle y mae pobol yn **nabod ei gilydd, yn cefnogi’i gilydd ac yn gweithio a hamddena gyda’i gilydd.**

Nid cynllun syml i namyn cywain pobol ynghyd yw’r fenter hon, felly. Ei nod yw **cywain ynghyd yn ystyrlon. Yn greadigol. Yn addysgol**. Ystyr hynny yw llwyr-wynebu’r heriau ieithyddol, diwylliannol a sosio-economaidd sydd ohoni. Eu **cyd**-wynebu. Eu **cyd**-gwestiynu. A **chyd**-ddatblygu ymatebion cadarnhaol iddynt.



4 Cryfhau Amgylchedd Cynhaliol y Gymraeg

Gan dynnu ysbrydoliaeth o fwrlwm hanesyddol Cribyn mae'r gyfres o gyfarfodydd yn cyd-drafod dyfodol yr ysgol wedi adnabod amrediad o weithgareddau â'r potensial i gryfhau amgylchedd cynhaliol y Gymraeg tra'n cynnwys ac yn addysgu newydd-ddyfodiaid yng Nghribyn a Dyffryn Aeron.

Yn fras, y nod yw cynnal yr elfennau gorau o'r gweithredu creadigol ac addysgol a fu a'u defnyddio'n sail i arloesi a thwf i'r dyfodol.

Dyma brif benawdau'r syniadau cyffrous...

- Creu cartref fforddiadwy ar gyfer teulu ifanc o gyffiniau Cribyn a Dyffryn Aeron
- Datblygu Ysgol Cribyn yn ganolbwynt...
    - gweithgareddau arloesol ynghyd â dathliadau traddodiadol Cymraeg-a-chynhwysol
    - gweithredu'n arloesol i wreiddio plant a phobol ifainc a newydd-ddyfodiaid yn hanes, daearyddiaeth, diwylliant, byd natur a bio-amrywiaeth y filltir sgwâr
    - pwyllgorau a chyfarfodydd busnes a hyfforddiant yng nghanol cywir Ceredigion
    - gweithgareddau llesiant corff a meddwl er budd trigolion Dyffryn Aeron a chanolbarth Ceredigion
    - hybu a datblygu syniadau / mentrau newydd a fydd yn cryfhau economi sylfaenol Cribyn a Dyffryn Aeron.

5 Cyfle unwaith-ac-am-byth

Yn ddi-os, felly, mae Ysgol Cribyn yn ased ag iddi botensial mawr. Mae'r cyngor sir yn rhoi 6 mis o gyfle i'r gymdogaeth brynu'r eiddo. Wedi hynny, bydd ganddynt yr hawl i'w gwerthu ar y farchnad agored. Felly, os na fydd i ni afael yn y cyfle hwn i'w phrynu mae peryg iddi droi'n ased er budd cwmni neu unigolyn yn unig, ac nid er budd cymdogaeth Cribyn a chymdeithas Dyffryn Aeron. Felly, **cyd**-brynu'r ysgol yw'r unig ffordd i'w diogelu ac yna'i datblygu ar ran y lles cymdeithasol.

O gymdogaeth Cribyn a chymdeithas Dyffryn Aeron y daw'r cyllid allweddol. Ond gall pobol o gylchoedd ehangach brynu cyfranddaliadau hefyd a thrwy hynny ddangos eu cefnogaeth, dod yn aelodau a **chyd**-gyfranogi yn y broses o ddychmygu a llunio dyfodol yr ysgol ar ei newydd wedd.

Cyd-brynu, **cyd**-berchen a **chyd-**ddyrchafu

Yng Nghymru (bro y broydd) yn gyffredinol a Dyffryn Aeron yn benodol mae gennym brofiad helaeth o godi a chynnal mentrau cydweithredol. Wedi'r cyfan, dyna yw ein capeli a'n neuaddau coffa, ein cwmniau drama, corau a chlybiau rygbi a phêl-droed heb sôn am fusnesau cydweithredol mawr y ffermwyr (CCF er enghraifft). Gyda'r fath waddol cyfoethog o'r gorffennol ac, yn ddiweddar, llwyddiant neilltuol Tafarn y 'Vale', Ystrad Aeron mae 'da ni sail gadarn ar gyfer edrych yn hyderus tuag at brynu ac ail-agor Ysgol Cribyn yn ganolbwynt o obaith a chryfder a newid radical i'r dyfodol.

Ar gefn ein hymdrech leol, byddwn hefyd yn bwrw ati i fanteisio ar grantiau gan gyrff cyhoeddus ac ymddiriedolaethau elusennol fel ei gilydd.

6 Y stori hyd yn hyn

Caeodd Ysgol Cribyn yn 2009. Gan fod cyn lleied o blant yn nalgylch yr ysgol ar y pryd ni wrthwynebwyd y cau gan y bwrdd llywodraethol. Gosodwyd dwy amod i'r cytundeb hwn sef (1) y bydde'r gymdogaeth leol yn cael y cynnig cyntaf ar brynu'r ysgol, a (2) fod bobol Cribyn yn cael defnyddio'r ysgol hyd hynny gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Defnyddiwyd yr ysgol yn ganolfan eithrio disgyblion hyd at 2020. Trwy'r cyfnod hwn cadwyd at y fargen. Ffurfiwyd Cymdeithas Clotas* [*enw'r gaer Geltaidd ger y pentre] wrth i'r ysgol gau gyda'r nod o wrthweithio effeithiau negyddol colli'r ysgol. Ers hynny mae Clotas wedi cynnal rhaglen gyfoethog o weithgareddau cymdeithasol ac addysgol gan ddefnyddio'r ysgol yn brif ganolbwynt. Yn ganolog i'r gweithredu cyson ac ystyrlon y mae'r nod deublyg o gynnal ac egnio Cymreictod cynhenid y gymdogaeth tra hefyd yn cynnwys newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg a'u cyflwyno at, a'u haddysgu parthed, y gymdogaeth, ei hanes, iaith a'i diwylliant.

Yn gydamserol â chyfnod Covid, daeth oes yr ysgol yn ganolfan eithrio i ben. Ysywaeth, wrth drosglwyddo gofal yr ysgol oddi wrth adran Addysg y cyngor sir at yr adran Ystadau ni drosglwyddwyd y fargen â Chymdeithas Clotas. Wrth i'r ysgol ddod yn stordy offer PPE ac ati, cafwyd cyfnod o frwydro â'r awdurdod. Cadwyd yr hawl i ddefnyddio un stafell ddosbarth yn unig. Ar yr un adeg, cafwyd cadarnhad fod festri Capel Cribyn (sef yr unig ofod cyhoeddus arall yn y pentre) mewn cyflwr argyfyngus. Oherwydd diffyg sadrwydd y seiliau nid oedd yr adeilad i'w ddefnyddio'n gyhoeddus bellach.

Gan nad oedd gan y gymdogaeth fyrlymus hon bellach fan cyfarfod addas at weithredu gweledigaeth holl bwysig Cymdeithas Clotas, dechreuwyd bwyso o ddifrif ar y cyngor sir i werthu'r ysgol gan eu hatgoffa o'r hen addewid i gyflwyno'r cynnig cyntaf i bobol Cribyn.
Ym mis Ionawr eleni, gwireddwyd yr addewid. Ar yr un pryd, dan arweiniad Cymdeithas Clotas ffurfiwyd Cymdeithas Budd Cymunedol Ysgol Cribyn cyf. a'i chofrestru gyda mudiadau Cwmpas (mudiadau cydweithredol Cymru), Co-operatives UK a sefydliad y *Financial Conduct Authority* (30 Ionawr, 2024 – rhid cofrestru: 9225).

Dros y misoedd diweddar mae cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus wedi'u cynnal yn yr ysgol. Gyda dros 20% o boblogaeth Cribyn yn bresennol ym mhob cyfarfod, gan gynnwys canran dda o newydd-ddyfodiaid i'r ardal, mae cefnogaeth i'r uchelgais o brynu a datblygu'r ysgol yn gryf â phob cyfarfod cyhoeddus yn dibennu â phleidlais unfrydol o blaid symud ymlaen.

Yn sgil Covid, mae nifer o gronfeydd grant yn blaenoriaethu cefnogaeth i gymunedau. Gan fod eu crynswth yn buddsoddi 'punt am bunt', po fwyaf o arian a godwn trwy'r cynnig cyfranddaliadau po fwyaf fydd ein gallu i fanteisio o'r grantiau sydd ar gael.
Ond nid oes amser i wilibowan. Wrth gynnig yr ysgol i'r gymdogaeth leol gosodwyd ffin o 6 mis. Wedi'r cyfnod hwn (ddiwedd Gorffennaf eleni) os na fydd y broses o brynu wedi'i sefydlu mi fydd gan y cyngor yr opsiwn o osod yr ysgol i'w gwerthu ar y farchnad agored.

Y pris a osodwyd gan y cyngor sir yw £175,000.

7 Y Cynllun Busnes

Mae cynllun busnes wedi'i greu ar gyfer tair blynedd gyntaf menter Ysgol Cribyn. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan www.ysgolcribyn.cymru neu os hoffech gopi papur cysylltwch â ni trwy'r cyfeiriad ebost ysgol.cribyn@gmail.com .

Y nod sylfaenol yw sicrhau cynaliadwyaeth yr ysgol ar ei newydd wedd.

I'r perwyl hwn mi fydd addasu rhan o'r ysgol yn gartref fforddiadwy yn gyfrwng i greu incwm cyson a dibynadwy i'r ganolfan.

Y brif elfen arall yn nghynaladwyaeth yr ased fydd potensial marchnata'r adeilad yn ganolfan hwylus a deniadol yng nghanol cywir Ceredigion ac yn meddu ar ofod helaeth, stafelloedd pwrpasol a maes parco eang.

Yn unol ag ethos sylfaenol mentrau cymdeithasol, mi fydd unrhyw warged ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei fuddsoddi naill ai yn y fenter ei hunan neu weithgaredd arall sydd o fudd i'r gymdogaeth gyfan.

Y prif fwriadau yw...

• Prynu Ysgol Cribyn a sicrhau diddosrwydd yr adeilad

• Addasu'r stafell ddosbarth fach a swyddfa'r pennaeth gynt yn gartref fforddiadwy.

• Gwella ac ail-strwythuro'r toiledau cyhoeddus

• Gwella ac uwchraddio'r ddwy brif stafell ddosbarth gynt a'u hail-bwrpasu yn...

- Ofod agored hyblyg ac addas i'w ddefnyddio'n neuadd gymunedol / theatr / sinema / darlithfa / stafell ddathliadau cymdeithasol neu breifat / stafell hyfforddi / cynadledda
- Galluogi rhannu'r gofod mawr yn ddau ofod, yn ôl y galw
- Addasu rhan o'r ail stafell ddosbarth gynt yn gegin eang a phwrpasol

• Gwella ac uchwraddio lle bwyta'r ysgol, gynt (dan yr ysgol) yn stafell bwyllgora / canolbwynt llesiant.

• Y tu fas: sicrhau diogelwch y coed a pharatoi'r tiroedd i'w datblygu'n ardd gymunedol ac addysgiadol.

Sesiwn Crafu Pen yn ystod Ffair Sant Silin yn gynharach eleni a esgorodd ar lond fflip-siart o syniadau cyfoethog

8 Cronfeydd Cyhoeddus ar gyfer datblygu'r ysgol

Mae Grwp Llywio'r fenter eisoes wedi cychwyn trafodaeth â'r darpar arianwyr canlynol...

• Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - Pobl a Lleoedd

Mae'r gronfa hon yn cynnig cyllid o rhwng £100,001 a £500,000 i brosiectau '...lle mae pobl a chymunedau'n cydweithio ac yn defnyddio eu cryfderau i gael effaith gadarnhaol ar y pethau sydd bwysicaf iddynt'. Gall 'Pobl a Lleoedd' ariannu costau cyfalaf a refeniw hyd at £500,000, megis offer, costau staff ac adnewyddu ac am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

• Cronfa Berchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Mae'r gronfa hon yn werth £150 miliwn ar draws Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Y nod yw '...galluogi cymunedau i barhau i gefnogi ac elwa ar y cyfleusterau, yr asedau cymunedol a'r amwynderau lleol sydd bwysicaf iddynt'. Gall grwpiau cymunedol wneud cais am hyd at £250,000 o arian cyfatebol i'w helpu i brynu neu gymryd gofal o asedau cymunedol lleol sydd mewn perygl o gael eu colli ac yna'u rhedeg yn fusnesau sy'n eiddo i'r gymuned.

• Llywodraeth Cymru – Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Cynllun grant cyfalaf yw hwn a weithredir gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach o dan £25,000 a grantiau mwy o hyd at £250,000. Gellir defnyddio'r grantiau i '...wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned ac sy'n cael eu defnyddio'n gyson ganddi'.

Ar hyn o bryd (Mawrth, 2024) mae arian y **Gronfa Ffyniant Gyffredin** (Lywodraeth y Deyrnas Unedig) ar gael trwy gyfrwng **Cynnal-y-Cardi**. Ond mae'n debygol y bydd y gronfa hon wedi'i dihysbyddu cyn i fenter yr ysgol allu manteisio arni.

Mae crynswth anghenion prosiect Ysgol Cribyn yn gymwys ar gyfer eu hariannu gan y gronfeydd uchod.

Y prif elfennau fydd:

1. Prynu'r ysgol a sicrhau diddosrwydd yr adeilad
2. Gwella a datblygu'r gofodau cyhoeddus (mewnol ac allanol)
3. Addasu'r stafell ddosbarth leiaf a swyddfa'r pennaeth gynt yn gartref fforddiadwy.

- Y pryniant fydd y flaenoriaeth ynghyd â'r gwaith o greu'r ganolfan gymdeithasol. Mae'n bosib y daw'r broses o greu'r cartref fforddiadwy yn ail gam – yn ddibynnol ar pryd y daw'r cyllid angenrheidiol i law.
- Pe digwydd bod yr incwm ariannu yn fach iawn, mae'r Grŵp Llywio'n hyderus y byddai gwaith atgyweirio sylfaenol ac ailaddurno'r safle fel y mae (â chymorth gwirfoddolwyr) yn galluogi ail-agor yr ysgol.

9 Cynllun Terfynol

Ar adeg briodol, a chyn mynd i wario'n sylweddol - ac eithrio prynu'r adeilad ei hun - cyflwynir cynllun terfynol - wedi'i seilio ar y cyllid sydd wedi'i sicrhau - ger bron aelodau'r Gymdeithas i'w gymeradwyo. Bydd unrhyw elw a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio i dalu am yr eitemau sefydlog a dewisol canlynol:

- Unrhyw rwymedigaethau treth
- Llog ar fenthyciadau
- Ad-dalu benthyciadau
  Cynnal a chadw'r adeilad
  Gwella a datblygu'r cyfleusterau
- Llog ar gyfalaf cyfranddaliadau
- Yn achlysurol, hwyluso prynu cyfranddaliadau yn ôl.

Er mwyn bod yn ofalus, ceisir adeiladu cronfa wrth-gefn resymol er cwrdd â chostau annisgwyl.

Os na fydd y Gymdeithas yn gallu cwblhau prynu'r eiddo, ac os nad yw'r aelodau wedi cymeradwyo unrhyw gynllun amgen, fe fydd cronfeydd y cyfranddalwyr yn cael eu had-dalu iddynt, lai unrhyw gostau gweinyddol, a bydd cynnig yn cael ei wneud gerbron Cyfarfod Cyffredinol o'r aelodau i ddod â'r Gymdeithas i ben.

10 Siwt bydd y Gymdeithas Budd yn gweithio?

Mae'r fenter hon yn ymwneud yn bennaf â helpu i gynnal a chryfhau cymdogaeth Cribyn a chymdeithas Dyffryn Aeron.

Mi fydd yr enillion ariannol yn gyfyngedig, ond falle y byddwch yn ennill llog ac fe fydd eich atebolrwydd yn gyfyngedig. Falle y bydd modd i chi arbed treth trwy fuddsoddi hefyd.

Un aelod, un bleidlais

Mae'n rheol allweddol fod gan bob aelod **un** bleidlais, 'sdim ots pa faint bynnag o gyfranddaliadau a brynwyd ganddynt. Mae pob siâr yn werth £1. Isafswm nifer y siârs y mae modd eu dal yw 100, a'r uchafswm yw 25,000.

Rhaid i aelodau fod dros 16 oed. Serch hynny, mae modd i oedolyn brynu siariau ar ran plentyn a'i gadw mewn ymddiriedaeth. Rhaid talu am y siariau'n llawn wrth wneud cais neu drwy gyfres o daliadau yn ôl amserlen benodol.

Rheolau a Llywodraethiant

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu rheolau arferol cymdeithasau budd cymunedol – rheolau a luniwyd gan Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru, gynt). Gellir gweld copi ar wefan yr ysgol.

Cyfrifoldeb y Grŵp Llywio fydd rhedeg y fenter o ddydd i ddydd, ac aelodau'r Grŵp fydd Cyfarwyddwyr cyfreithiol y Gymdeithas. Aelodau'r Gymdeithas fydd yn penodi aelodau'r Grŵp Llywio

ac yn cymeradwyo polisïau talu llog ar gyfranddaliadau ac ailbrynu cyfranddaliadau, a hynny yn y Cyfarfodydd Blynyddol.

Bydd aelodau etholedig y Grŵp Llywio yn dal eu swyddi am gyfnod o dair blynedd. Bydd yr aelodau hynny sy'n ffurfio'r Grŵp Llywio cychwynnol i gyd yn ymddeol yn y CCB cyntaf yn unol â rheolau'r Gymdeithas, ond gallant gynnig eu hunain i'w hailethol. Wedi hynny, bydd aelodau'r Grŵp Llywio yn ymddeol yn raddol dros y tair blynedd ganlynol yn unol â rheolau'r Gymdeithas.

Bydd holl aelodau newydd y Grŵp Llywio yn cael eu hethol gan aelodau'r Gymdeithas. Bydd gan bob aelod hawl i fynychu'r CCB a sefyll i'w ethol i'r Grŵp Llywio.

Bob blwyddyn, bydd y Grŵp Llywio yn cyflwyno argymhelliad ynglŷn â thaliadau llog ar gyfranddaliadau i'w gymeradwyo gan yr aelodau yn y Cyfarfod Blynyddol.

Ailbrynu Cyfranddaliadau

Ni fydd yn bosib gwerthu na throsglwyddo cyfranddaliadau, ac eithrio yn achos marwolaeth neu fethdaliad. Yr unig ffordd o gael gwerth eich buddsoddiad yn ôl fydd trwy wneud cais i'r Gymdeithas ei hun i'w prynu nôl am eu gwerth gwreiddiol. Dim ond o warged, neu o gyfalaf newydd a godir gan aelodau, y gellir tynnu cyfalaf eich cyfranddaliadau. Bydd angen i chi roi o leiaf dri mis o rybudd o'ch dymuniad i dynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd hyn yn bosib cyn blwyddyn 5.

Pan ddaw'n bosib ystyried ailbrynu cyfranddaliadau mi fydd y Grŵp Llywio yn nodi meini prawf ac uchafsymiau blynyddol priodol. Mae'n bwysig deall y gall y Grŵp benderfynu peidio â chytuno i ailbrynu os yw hynny'n groes i...

- fuddiannau tymor hir y Gymdeithas,
- yr angen i gynnal cronfeydd wrth gefn digonol,
- yr ymrwymiad i'r gymuned.

Clo Asedau

Mae rheolau'r Gymdeithas yn cynnwys clo asedau sy'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae hyn yn golygu, ar ôl talu llog i gyfranddalwyr ac ad-dalu unrhyw gyfalaf sy'n cael ei dynnu, fod yn rhaid i unrhyw enillion sy'n weddill gael eu hail-fuddsoddi yn y fusnes neu eu defnyddio er budd y gymuned leol neu at achos elusennol neu gymunedol arall. Felly, pe bai'r Gymdeithas yn cau ond bod yr adeilad wedi cynyddu yn ei werth, mi fyddai'n bosib gwerthu'r asedau a dychwelyd cyfalaf i aelodau hyd at werth y buddsoddiadau gwreiddiol. Serch hynny, ni fyddai'n bosib dosbarthu unrhyw werth ychwanegol yn y ffordd yma.

Tâl

Ni fydd cyfarwyddwyr nac aelodau'n elwa'n ariannol mewn unrhyw ffordd o weithgareddau'r Gymdeithas, heblaw trwy gymryd rhan yng nghynnig cyfranddaliadau a chynigion benthyciad y Gymdeithas.

11 Siwt ma gwneud cais am gyfranddaliadau

Os y'ch chi am gefnogi'r ysgol a dod yn aelod o'r Gydeithas Budd Cymunedol drwy fuddsoddi yn y fenter cwblhewch y **Ffurflen Fuddsoddi** naill ai...

- ar-lein ar **www.ysgolcribyn.cymru** neu...
- wrth ddychwelyd y ffurflen isod at: **Menter Ysgol Cribyn d/o Uned 2, Bryn Salem, Felin-fach, Dyffryn Aeron, Ceredigion, SA48 8AE**.

Rhybudd Pwysig

Darllenwch yr ystyriaethau canlynol cyn penderfynu, sef...

I. Pan fyddwch yn ystyried prynu cyfranddaliadau mae'n hanfodol eich bod yn deall mai buddsoddiad yn ein cymdogaeth a'n cymdeithas yw hwn, gyda'r bwriad o greu ased diogel a pharhaol i ni i gyd.

II. Y bwriad yw adeiladu ar ein seiliau cymdeithasol a helpu i greu cymdogaeth ffyniannus a chynaliadwy. Nid yw'n fuddsoddiad confensiynol ac ni ddylech ddisgwyl enillion ariannol uchel nac uniongyrchol. Mae gwybodaeth lawn wedi'i nodi yn rheolau'r Gymdeithas sydd ar gael ar wefan yr ysgol.

III. SYLWCH: Ni all gwerth cyfranddaliadau gynyddu y tu hwnt i'w gwerth gwreiddiol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai gwerth cyfranddaliadau ostwng os yw'r fusnes yn aflwyddiannus.

IV. Yn fuddsoddwr, mae eich atebolrwydd wedi'i gyfyngu i werth eich cyfranddaliadau. Pe bai'r fusnes yn methu (annhebygol) ni fyddai gennych unrhyw atebolrwydd pellach.

IV. Mi allai'r Gymdeithas ystyried talu llog ar gyfranddaliadau ar ôl i'r bedwaredd flwyddyn o fasnachu gael ei chwblhau a galluogi cyfranddalwyr i dynnu eu buddsoddiadau wedi'r bumed flwyddyn. Mae rheolau'r Gymdeithas yn caniatáu i daliadau llog gael eu hatal os nad yw perfformiad ariannol y Gymdeithas yn cyfiawnhau taliad o'r fath.

VI. Yr unig ffordd i adennill buddsoddiadau (naill ai'r swm cychwynnol neu unrhyw werth gostyngedig – ac oni bai am daliadau llog neu ad-daliadau cyffredinol) yw trwy roi rhybudd i'r Gymdeithas o ddymuniad i dynnu buddsoddiad yn ôl. Ni all hyn ddigwydd yn ystod y pum mlynedd gyntaf wedi dyddiad cyhoeddi y cyfranddaliadau hyn.

VII. Mae'r amodau penodol ar gyfer tynnu'n ôl yn cynnwys...

A. Rhaid i arian a dynnir yn ôl gael ei ariannu o wargedion masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd. Maent yn ddewisol, gan fod yn ddarostyngedig i foddhad y Grŵp Llywio bod tynnu'n ôl yn gyson â buddiannau tymor hir y Gymdeithas.

B. Mae'r cyfanswm ad-daladwy bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o 10% o werth cyfredol y cyfranddaliad.

C. Rhaid rhoi rhybudd o dri mis.

VIII. Bydd yr holl arian a fuddsoddir yn y cynnig cyfranddaliadau yma'n cael ei ddal yng nghyfrif banc Cymdeithas Budd Cymunedol Ysgol Cribyn Cyfyngedig a'i ddefnyddio yn unig at ddibenion prynu'r ysgol, adnewyddu ac addasu'r adeilad, cyfalaf gweithio a chostau fydd yn codi wrth lawnsio a gweinyddu'r Gymdeithas. Os na fydd y pryniant yn mynd rhagddo, ad-delir yr holl gyfraniadau yn net o'r costau fydd wedi codi.

IX. Falle bydd modd i drethdalwyr gael ad-daliad 30% ar gost y cyfranddaliadau oddi wrth HMRC dan y cynllun *Enterprise Investment Scheme* (EIS). Ond mater i HMRC yw caniatau hynny neu beidio. Er bod y Gymdeithas wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw beth yn y cynnig cyfranddaliadau hwn, nac yn y ffordd y bydd y cyllid ddaw i law, yn cael ei ddefnyddio yn groes i reolau EIS (ac wedi ceisio sicrwydd ymlaen llaw gan HMRC ar y sail honno) nid yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fethiant gan fuddsoddwyr unigol i adennill treth mewn perthynas â'u buddsoddiadau. At hynny, eu cyfrifoldeb unigol hwy fydd sicrhau cywirdeb gwybodaeth am statws treth a fydd wedi'i darparu ganddynt wrth fuddsoddi.

X. Mae Cymdeithas Budd Cymunedol Ysgol Cribyn Cyfyngedig wedi'i chofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ond nid yw'r Awdurdod yn rheoleiddio gwerthu cyfranddaliadau cymunedol. Megis llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol yn agored i risg a gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian ry' chi'n ei fuddsoddi. Yn wahanol i gyfrifon cadw gyda banciau stryd fawr, nid yw'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol yn cynnwys cyfranddaliadau cymunedol, ac nid oes unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Os y'ch chi'n ystyried buddsoddi swm sylweddol, falle yr hoffech ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, ewch i'n gwefan – www.ysgolcribyn.cymru

- neu gysylltwch â'r Gymdeithas ar ysgol.cribyn@gmail.com .

12 Y Ffurflen fuddsoddi

Dulliau talu:

- **Siec** yn daladwy i: **Llanelli & District Credit Union Ltd**
- **Ar-lein: www.ysgolcribyn.com**
- **Taliad Uniongyrchol**: Defnyddiwch **10343** ac yna lythrennau cyntaf eich enw a thri rhif olaf eich rhif ffôn yn gyfeirnod (e.e. cyfeirnod Sam Tân fyddai 10281-ST999): 1 0 3 4 3 - Enw busnes: **Llanelli & District Credit Union Ltd** (L&DCU) Cod didoli: **30-95-14** (Banc Lloyds). Rhif y cyfrif: **00036705**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Cynnig Cyfranddaliadau llawn a chytunaf i'r canlynol gael eu cadw mewn cronfa ddata electronig: fy enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost, nifer y cyfranddaliadau a brynwyd.

Defnyddir y wybodaeth yma i gynnal cofrestr aelodau a chyfranddaliadau yn unol â gofynion rheolau'r Gymdeithas ac ar gyfer cyfathrebu gweithgareddau menter yr ysgol.

Bydd y swm a fuddsoddir yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti.

Rhif y Cyfranddaliadau _____ Gwerth y Cyfranddaliadau £_____

Llofnod _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

_____

Côd Post _____ Rhif Ffôn _____

Ebost _____

Dyddiad _____

Anfonwch at: **Ysgol Cribyn d/o Uned 2, Bryn Salem, Felin-fach, Dyffryn Aeron, Ceredigion, SA48 8AE** neu ar ebost: ysgol.cribyn@gmail.com. Lle bo modd, cyhoeddir derbynebau trwy ebost (er lleihau costau gweinyddol. Bydd tystysgrif cyfranddaliad yn cael ei anfon atoch maes-law.